Bute Energy
Cymuned

# Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed

Nos Fercher 11 Chwefror 2026

## Presenoldeb

**Yn bresennol**

- Sarah Hackshall (SH) – Cynrychiolydd y diwydiant twristiaeth yn lleol
- Sali Ann Preston (SP) – Amddiffyn Glaslyn a Hafren
- Derrick Pugh (DP) – Cyngor Cymuned Trefeglwys
- Elen Williams (EW) – Cyngor Cymuned Cadfarch / CFfI Bro Ddyfi / Maldwyn (ymuno ar-lein)
- Sophie Bloomfield (SB) – Rheolwr Prosiect Cyswllt Parc Ynni Esgair Galed, Bute Energy
- Richard Lawrence (RL) – Arweinydd Hamdden a Iechyd, Tîm Buddsoddi Cymunedol Bute Energy
- Huw Rees (HR) – Rheolwr Prosiect Parc Ynni Esgair Galed, Bute Energy
- Sara Powell-Davies (SPD) – Thirty4/7 Communications (ymuno ar-lein)

**Ymddiheuriadau**

- Richard Ashton – Cyngor Cymuned Llanbrynmair (wedi anfon ymddiheuriadau)
- Maya Bimson (MB) – Amddiffyn Glaslyn a Hafren
- Paul Buckley (PB) – Cymdeithas Gymunedol Clywedog – (ddim yn gynrychiolydd erbyn hyn)
- Endaf Meddins (EM) – tirfeddiannwr yn Esgair Galed
- Y Cynghorydd Gary Mitchell (GM) – Cyngor Sir Powys
- Y Cynghorydd Elwyn Vaughan – Cyngor Sir Powys

**Absennol** ***(noder bod mudiadau wedi cael cais i beidio anfon mwy nag un cynrychiolydd i bob cyfarfod)***

- Carla Evans – Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn
- Bryn Jones (BJ) – Cyngor Cymuned Llanbrynmair
- Y Cynghorydd Glyn Preston – Cyngor Sir Powys
- Edward Pugh – Cyngor Cymuned Trefeglwys
- Barbara Richter – Cydweithfa Gymunedol Llwyn-y-go

## Trosolwg o'r agenda

1. Croeso a chyflwyniadau

2. Ymddiheuriadau

3. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf
4. Bwrw golwg ar aelodaeth y grŵp
5. Diweddariad ar prosiect Esgair Galed
6. Diweddariad ar y fenter ynni cymunedol
7. Cyfleoedd hamdden a iechyd
8. Unrhyw fater arall
9. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Bute Energy Cymuned

## Trafodaethau a Nodiadau

### 1. Croeso a chyflwyniadau

*Cyflwynodd yr aelodau eu hunain a chadarnhau'r mudiadau maen nhw'n eu cynrychioli*

- Croesawyd Sophie Bloomfield a Richard Lawrence i'r grŵp
- Roedd Sarah Hackshall yn ymuno fel cynrychiolydd y diwydiant twristiaeth yn lleol
- Nid yw Paul Buckley yn gynrychiolydd ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Clywedog erbyn hyn

**Camau gweithredu**

- **HR/SB:** Siarad â Chymdeithas Gymunedol Clywedog i benderfynu ar gynrychiolydd newydd
  Erbyn – **31 Mawrth 2026**

### 3. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

*Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf yn eu tro.*

- **HR i ddilyn i fyny efo cynrychiolydd busnes twristiaeth lleol**
  - Wedi'i wneud – Sarah Hackshall fel cynrychiolydd ar y grŵp.

- **JG i ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio'r Gronfa Buddiannau Cymunedol ar gyfer pobl leol**
  - Roedd y cwestiwn yma wedi'i fframio yn yr ystyr bod pobl leol yn teimlo na fydden nhw'n elwa o elfennau y gallai'r Gronfa Buddiannau Cymunedol (CBF) eu cefnogi
  - Cadarnhaodd HR ac RL y gallai'r gronfa gefnogi'r canlynol:
    - Prosiectau ynni cymunedol – bydd 25% o'r Gronfa Buddiannau Cymunedol flynyddol yn cael ei ddyrannu tuag at y prosiectau yma, i drio gostwng biliau ynni i bobl yn lleol a darparu ased i'r gymuned fod yn berchen arni.
    - Ffyrdd o arallgyfeirio busnesau drwy grantiau ar gyfer busnesau lleol
    - Arbed ynni a gostwng biliau – e.e. ôl-osod eiddo sydd heb wres canolog / sydd ag inswleiddio aneffeithiol.
  - Bydd y Gronfa Buddiannau Cymunedol yn cael ei gweinyddu drwy Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Mae cymeradwyaeth gan y Comisiwn Elusennau yn yr arfaeth. Bydd panel lleol yn argymell blaenoriaethau ariannu i Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

  - Amseriad y cyllid
    - Ar gyfer prosiectau eraill Bute Energy, mae 20% o gyllid y flwyddyn gyntaf wedi'i ryddhau'n gynnar (tua 12-18 mis ar ôl cael caniatâd cynllunio)
  - Codwyd pryderon ynghylch yr effeithiau posib ar fusnesau twristiaeth lleol ac a fyddai modd defnyddio’r cyllid fel iawndal. Cadarnhawyd nad bwriad y Gronfa Buddiannau Cymunedol yw bod yn iawndal i fusnesau na thrigolion unigol.
  - Mynegodd rhai aelodau bryderon ynghylch:
    - Effeithiau gweledol ac effeithiau ar y tirlun
    - Dirywiad twristiaeth
    - Defnyddio’r arian y tu allan i Benffordd-las
  - Esboniodd Bute Energy fod y prosiect yn dal i fod yn ei gamau cynnar, ac y bydd gwaith ymgysylltu’n dal i siapio’r blaenoriaethau.

- **HR i ymchwilio i fater iawndal i fusnesau o ganlyniad i golli enillion**
  - Fel y nodir uchod, cadarnhaodd HR na fydd iawndal yn cael ei gynnig i fusnesau lleol drwy'r Gronfa Buddiannau Cymunedol

- **PAWB i rannu manylion mynychwyr posib ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol efo HR neu T47**
  - Dim byd i'w rannu

- **HR i sicrhau bod y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru yn cael ei uwchlwytho i adran Grŵp Cyswllt Cymunedol gwefan y prosiect**
  - Mae'r Cofnodion a'r Cylch Gorchwyl ar gael ar wefan Bute yma – https://bute.energy/esgair-galed/overview/ymgysylltiad-lleol-esgair-galed/?lang=cy

- **PAWB i ystyried y blaenoriaethau allweddol y gellid eu cynnwys yn y gwaith mapio digidol a'u rhannu efo Bute**
  - Gwnaed yr awgrymiadau canlynol gan y grŵp mewn perthynas â blaenoriaethau’r Gronfa Buddiannau Cymunedol:
    - Paneli solar ac ôl-osod ynni
    - Addysg a sgiliau ar gyfer swyddi gwyrdd
    - Cynlluniau gwefru ceir trydan
    - Diffibrilwyr a chynnal a chadw
    - Gwydnwch cymunedol a chadw pobl ifanc
    - Hyrwyddo a chymorth i dwristiaeth
    - Cymryd rhan mewn prosiect mapio ffonau symudol, o dan arweiniad Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)

Bute Energy Cymuned

        - Creu llwybr tyrbinau, addurno tyrbinau
    - Mae gwaith mapio cymdeithasol ar y gweill i nodi blaenoriaethau lleol.

- **JG i ymchwilio i 'fannau digyswllt' digidol**
    - Mae tîm Buddsoddi Cymunedol Bute yn ymwybodol o brosiectau rhanbarthol e.e. y Prosiect Mapio Ffonau Symudol a lansiwyd i nodi 'Mannau Digyswllt Ffonau Symudol' yn y canolbarth ac maen nhw wrthi'n gwneud cyswllt efo PAVO er mwyn chwarae rhan yn y prosiect.

- **JG i ymchwilio i fodelau ynni cymunedol a chyflwyno opsiynau yn y cyfarfod nesaf**
    - Mae astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy graddfa fach wrth ochr un arall o safleoedd Bute Energy ar ôl iddo gael caniatâd cynllunio.
    - Cafodd y gwaith ei wneud gan Dulas, cwmni o Fachynlleth, ac mae'n rhan o Safon Gwerth Cymdeithasol Bute Energy.
    - Mae'r gwaith o lunio'r adroddiadau dichonoldeb yma'n flaenoriaeth gynyddol ar draws y portffolio ac mae tîm Bute wrthi'n ymchwilio i amserlen realistig ar gyfer pryd y gallai hyn fod yn bosib i Esgair Galed. Bydd HR yn rhoi diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

- **PAWB i ystyried sut y gellid defnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned leol a rhannu'r syniadau efo Bute**
    - Cynigiodd Bute Energy ddarparu cymorth ar gyfer gwaith gwirfoddoli cymunedol, fel:
        - Cyngor cyfreithiol
        - Ceisiadau grant
        - Cynnal a chadw cymunedol
    - Mynegodd rhai aelodau o'r gymuned bryder y gallai derbyn y cymorth gael ei ddehongli fel cefnogaeth i'r prosiect.
    - Rhoddwyd eglurder nad yw derbyn cymorth yn awgrymu cytundeb na chefnogaeth.

- **T47 i sicrhau bod rhestr lawn o wahoddiadau wedi'i chynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd y dyfodol**
    - Wedi'i wneud

- **Bydd HR yn codi mater iawndal yn fewnol yn Bute Energy ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.**
    - Fel y nodir uchod, cadarnhaodd HR na fydd iawndal yn cael ei gynnig i drigolion lleol drwy'r Gronfa Buddiannau Cymunedol.

Bute Energy Cymuned

**Camau gweithredu**

- **HR:** Darparu manylion ac amserlenni pellach ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb Ynni Cymunedol Esgair Galed
  Erbyn: **20 Mai 2026**
- **HR / SB:** Siarad efo PAVO i weld oes yna gyfle i gysylltu efo'r astudiaeth mapio ffonau symudol
- Erbyn: **31 Mawrth 2026**

## 4. Aelodaeth y grŵp

*Trafodaeth am aelodaeth y grŵp – eitem sefydlog ar yr agenda*

- Ailadroddwyd pwrpas a swyddogaeth y grŵp.
- Gwahoddwyd yr aelodau i awgrymu mudiadau pellach.
- Cadarnhaodd Bute nad yw Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Cyswllt Cymunedol ar hyn o bryd.

**Camau gweithredu**

- Dim camau gweithredu wedi'u nodi

## 5. Diweddariad prosiect

*Rhoddodd HR ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf*

- Amserlen y Prosiect:
  - Mae'r ymgynghoriad statudol wedi'i ohirio ac erbyn hyn disgwylir iddo ddigwydd tua diwedd 2026.
- Mae'r rheswm dros yr oedi yn gysylltiedig â'r canlynol:
  - Mae cyfyngiadau amgylcheddol ychwanegol wedi'u nodi.
  - Mae'r drefn gynllunio ar gyfer prosiectau gwynt ar y tir yn newid. Gellir cyflwyno'r prosiect o dan naill ai:
    - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), neu
    - Y Gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith newydd.
- Mae'n debygol mai yn 2027 y bydd y cais cynllunio'n cael ei gyflwyno erbyn hyn.
- Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais fydd yr ymgynghoriad nesaf.
- Bydd cyflenwadau dŵr preifat yn cael eu hasesu.

*Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am oleuadau ar gyfer awyrennau.*

- Mae'r safle wedi'i gydnabod gan fudiad Mynyddoedd Cambria fel Safle Darganfod Awyr Dywyll, ond does ganddo ddim dynodiad Awyr Dywyll Rhyngwladol.
- Dydy'r gofynion o ran darparu goleuadau ar gyfer awyrennau ddim wedi'u cadarnhau eto a bydd mesurau lliniaru yn cael eu hystyried cyn y rownd nesaf o ymgynghori.
- Bydd ymgyngoreion statudol perthnasol fel y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) a'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) yn rhan o hynny.

**Camau gweithredu**

- **HR:** Diweddariad ar yr amserlenni tebygol ar gyfer ymgynghori statudol ar y prosiect yn y cyfarfod nesaf
- Erbyn – **20 Mai 2026**
- **HR:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am oleuadau ar gyfer awyrennau
    - Wedi'i ddarparu fel Atodiad A ar ddiwedd y ddogfen yma

## 6. Diweddariad ar y fenter ynni cymunedol

*Cafodd y pwynt agenda yma ei drafod wrth drafod camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol. Doedd dim trafodaeth na chamau gweithredu pellach ar yr eitem agenda yma.*

## 7. Cyfleoedd hamdden a iechyd

*Rhannodd RL enghreifftiau oedd yn deillio o brosiectau eraill*

- Mynediad gwell ar gyfer beicio a marchogaeth gan gynnwys corlannau a rheiliau clymu
- Mannau cymunedol a llecynnau picnic – siarad efo ysgol leol i weld a allen nhw wneud meinciau picnic
- Cyfleusterau addysgol a digwyddiadau
- Seilwaith parcio a llwybrau gwell

Roedd y drafodaeth leol yn canolbwyntio ar y canlynol

- Mae angen i syniadau gael eu harwain gan y gymuned a'u siapio gan adborth lleol
- Does dim 'un ateb sy'n addas i bawb' ac fe allai prosiectau eraill fod yn ysbrydoliaeth
- Pryderon diogelwch ar Ffordd Fynydd Dylife – yn enwedig pan fydd y tywydd yn ddrwg a'r ffordd ar gau'n swyddogol ond bod y rhybuddion yn cael eu hanwybyddu
- Mae trafodaethau efo'r Cyngor ar y gweill ond gallai fod yn gyfle i Bute Energy, neu ymgynghorwyr traffig a thrafnidiaeth arbenigol, helpu.

- Dim penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch sut bydd tyrbinau'n cael eu cludo i'r safle.

Camau gweithredu

- **EW:** Anfon manylion pryderon diogelwch a lleoliadau penodol i gyfeiriad e-bost Tîm y Prosiect
  Erbyn – **28 Chwefror 2026**
- **HR / SB:** Adrodd yn ôl ar gymorth posib
  Erbyn – **20 Mai 2026**

## 8. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall wedi'i nodi cyn y cyfarfod, felly gofynnodd HR a oedd unrhyw beth arall yr hoffai pobl ei drafod.

- Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth gliriach a mwy addas i'w rhannu er mwyn gwella cyfathrebu'n lleol.
- Codwyd pryderon ynghylch diffyg ymddiriedaeth ac oedi.
- Ymrwymodd Bute Energy i ystyried y ffordd orau o rannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Camau gweithredu

- **HR / SB / RL:** Darparu diweddariad ysgrifenedig ar y prosiect cyn cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol er mwyn rhoi mwy o gyfle i aelodau brosesu a deall y diweddariad sy'n cael ei roi yn ystod cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol.
  Erbyn – **31 Mawrth 2026**

## 9. Cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** Nos Fercher 20 Mai 2026

**Amser:** 18.30

**Lleoliad:** Neuadd Gymunedol Penffordd-las / dolen Teams i'w chylchredeg

## Crynodeb o'r Camau Gweithredu

| Cam | Arweinydd | Erbyn |
|---|---|---|
| **Nodi cynrychiolydd newydd ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Clywedog** | HR / SB | 31 Mawrth 2026 |
| **Dilyn i fyny efo PAVO** | HR / SB | 31 Mawrth 2026 |

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion hyfywedd ynni cymunedol** | HR | 20 Mai 2026 |
| **Diweddariad ar amseriad y prosiect** | HR | 20 Mai 2026 |
| **Diweddariad ar oleuadau ar gyfer awyrennau** | HR | 20 Mai 2026 |
| **Manylion diogelwch ffyrdd** | EW | 28 Chwefror 2026 |
| **Diweddariad ar gymorth diogelwch ffyrdd** | HR / SB | 20 Mai 2026 |
| **Rhannu gwybodaeth cyn y cyfarfod nesaf** | HR / SB / RL | 31 Mawrth 2026 |

**Atodiad A – Ymateb o ran Goleuadau ar gyfer Awyrennau**

Oherwydd cam datblygu presennol Esgair Galed, does ganddon ni ddim strategaeth derfynol o ran goleuadau ar gyfer awyrennau eto.

Pan fydd cynllun y safle wedi'i ddatblygu'n ddigonol, byddwn yn cynnal gwaith pellach i lunio'r union strategaeth goleuadau ar gyfer awyrennau a fydd yn destun ymgynghoriad yn y rownd nesaf o ymgynghori ar gyfer prosiect Esgair Galed.

Mae Datganiad Polisi'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ar Oleuadau ar Eneraduron Tyrbinau Gwynt ar y Tir yn nodi'r canllawiau isod yn ymwneud â golau y byddai angen i ni gydymffurfio â nhw yn y dyluniad:

> *Dylai goleuadau gael eu gweithredu gan ddyfais reoli dderbyniol (e.e., ffotogell, amserydd, ac ati) wedi'i haddasu fel bod y goleuadau'n cael eu troi ymlaen pryd bynnag y bydd y goleuedd sy'n cyrraedd arwyneb fertigol yn gostwng o dan 500 LUX. Dylai'r ddyfais reoli ddiffodd y goleuadau pan fydd y goleuedd yn cynyddu i lefel o 500 LUX neu fwy.*
>
> *Os yw'r gwelededd meteorolegol llorweddol ym mhob cyfeiriad o bob generadur tyrbin gwynt mewn grŵp yn fwy na 5 km, gall dwyster y golau sydd wedi'i leoli mor agos ag sy'n ymarferol bosib at ben y strwythur sefydlog y mae'n ofynnol ei osod ar unrhyw eneradur yn y fferm wynt a'i arddangos, gael ei leihau i ddim llai na 10% o'r dwyster brig lleiaf a bennir ar gyfer golau o'r fath.*

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn ystyried pob datblygiad arfaethedig fesul achos, ac yn ystyried yr amgylchedd penodol, gan gynnwys y datblygiadau a'r goleuadau presennol yn ogystal â manteision cynlluniau gyda llai o lau pan fydd llygredd golau yn broblem.

Fel arfer, ar gyfer safleoedd fel Esgair Galed, bydd yr Adroddiad Goleuadau ar gyfer Awyrennau yn amlinellu'r nifer lleiaf posib o dyrbinau y mae angen eu goleuo â goleuadau gweladwy 2000cd. Gallwch weld enghraifft o Adroddiad Goleuadau ar gyfer Awyrennau o Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais diweddar Llyn Lort yma: https://bute.energy/llyn-lort/overview/the-project/project-documentation/volume-iii-technical-appendices/volume-iii-chapters-1-to-5-introductory-es-chapters/

Byddwn yn gallu dangos bod y goleuadau yma'n pylu ar onglau is. Ar ben hynny, fel y disgrifir uchod, bydd cyfnodau pan fydd modd pylu'r goleuadau i lawr i 10% o ddwyster. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu rhannu yn y rownd nesaf o ymgynghori cyhoeddus.

O safbwynt golau is-goch, mae'n debyg y bydd angen goleuadau is-goch ar y rhan fwyaf o dyrbinau. Nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.